23 Ionawr 2021

Annwyl Rieni/ Ofalwyr,

Diolch

Diolch i chi fel rhieni am bob cefnogaeth ers dechrau'r Tymor. Ers penderfyniad hwyr y Llywodraeth i ohirio dychweliad disgyblion i'r Ysgol (tan 1 Chwefror ar y cynharaf), bu athrawon yr ysgol wrthi yn paratoi gwersi 'byw' ar Microsoft Teams, gan gynnal strwythur 6 gwers i bob diwrnod, yn dechrau gyda chofrestru yn y bore am 0840. Disgwylir i ddisgyblion fynychu pob gwers yn brydlon a chyflawni'r gwaith a osodir. Bu eich cefnogaeth yn helpu eich plant yn hanfodol i gynnal y gyfundrefn.

Gwelwyd dros 90% o ddisgyblion ar draws yr Ysgol yn ymgysylltu yn feunyddiol, ac mae tîm o staff yn cysylltu â chartrefi disgyblion sydd ddim yn y gwersi, i gynnig cefnogaeth i sicrhau fod mynediad gan bob disgybl i'r gwersi. Derbyniwyd negeseuon cyson gan rieni yn mynegi eich gwerthfawrogiad o'r ddarpariaeth, ac awgrymiadau positif ar sut i addasu'n dulliau dysgu a strwythur y dydd ymhellach.

Newidiadau

Rydym yn parhau i adolygu ein strwythurau yn gyson. Penderfynwyd **ar yr un amser cinio i bawb** (12:40pm - 1:30pm) o Ddydd Llun ymlaen - rhaniad gwersi 4 bore - 2 pnawn , ac mae'n bosib y byddwn yn newid ambell elfen o'n darpariaeth wrth fireinio yn gyson.

Arholiadau Haf 2021

Dyma grynodeb i rieni/gofalwyr a disgyblion yn deillio o ddatganiad y Gweinidog Addysg Ddydd Mercher a'i effaith ar wahanol flynyddoedd yn yr Ysgol.

BLWYDDYN 10

Ni fydd yn bosibl sefyll arholiadau mewn unedau TGAU ym Mlwyddyn 10 bellach. Fe ddaw mwy o wybodaeth am drefniadau asesu 2022 maes o law. Fe fydd y trefniadau hynny yn ystyried amgylchiadau anffafriol 2021 a'i effaith ar ddisgyblion fydd yn sefyll arholiadau yn 2022. Bydd gwaith eleni'n BWYSIG IAWN wrth baratoi ar gyfer Blwyddyn 11, felly rhaid parhau i fwrw'r maen i'r wal ac ymgysylltu 100% gyda'r gwaith ar lein a nôl yn yr Ysgol pan ddaw'r cyfle.

BLWYDDYN 11

Yr ysgol fydd yn dyfarnu graddau TGAU y disgyblion, a hynny ar sail tystiolaeth gadarn a gwrthrychol. Ni fydd asesiadau nac arholiadau allanol yn cael eu gosod gan CBAC. **Nid yw'r sefyllfa o ran pynciau galwedigaethol yn glir eto.** Bydd athrawon yn penderfynu ar

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.Gŵyr@swansea.gov.uk http://www.ygGŵyr.swansea.sch.uk

y graddau GBG (Graddau a bennir gan y ganolfan) yn seiliedig ar amrywiaeth o dystiolaeth a gwybodaeth asesu e.e.

- asesiadau sydd wedi'u cwblhau yn ystod y cwrs
- gwaith cwrs
- deunyddiau asesu wedi'u haddasu a fydd yn cael eu darparu gan CBAC
- ymrwymiad y disgybl i'r cwrs ac i ddysgu
- barn broffesiynol am berfformiad dros gyfnod o amser
- canlyniadau arholiadau blaenorol yn y pwnc neu unedau blaenorol
- perfformiadau ymarferol mewn pynciau fel Addysg Gorfforol, Gwyddor Bwyd, Cerddoriaeth ayyb

Fe fydd y graddau'n cael eu pennu gan yr ysgol yn nhymor yr haf, er mwyn caniatáu i ni orffen addysgu ein cyrsiau a'n galluogi i gasglu rhagor o dystiolaeth.

BLWYDDYN 12

Yr ysgol fydd yn penderfynu ar y radd Uwch Gyfrannol (AS). **Nid ydym yn siŵr eto beth fydd y sefyllfa o ran pynciau galwedigaethol.** Ni fydd asesiadau nac arholiadau allanol. Bydd yr Ysgol yn penderfynu ar y graddau GBG (Graddau a bennir gan y ganolfan) yn seiliedig ar amrywiaeth o dystiolaeth a gwybodaeth asesu e.e.

- asesiadau sydd wedi'u cwblhau yn ystod y cwrs,
- gwaith cwrs.
- deunyddiau asesu wedi'u haddasu a fydd yn cael eu darparu gan CBAC
- ymrwymiad y disgybl i'r cwrs ac i ddysgu
- barn broffesiynol am berfformiad dros gyfnod o amser
- canlyniadau arholiadau blaenorol yn y pwnc neu unedau blaenorol
- perfformiadau ymarferol e.e. Addysg Gorfforol, Gwyddor Bwyd, Cerddoriaeth ayyb

Fe fydd y graddau'n cael eu pennu gan yr ysgol yn nhymor yr haf, er mwyn caniatáu i ni orffen addysgu ein cyrsiau a'n galluogi i gasglu rhagor o dystiolaeth.

Ni fydd gradd Uwch Gyfrannol y disgybl yn cyfrannu at y radd safon uwch yn 2022. Fodd bynnag fe fydd y radd UG yn bwysig o ran:

a) Mynediad i Brifysgol ac addysg uwch trwy UCAS

b) Helpu rhoi gwybodaeth i'r ysgol am radd ddisgwyliedig y myfyriwr yn 2022

Os na fydd disgybl yn parhau gyda'r cwrs ym Mlwyddyn 13 bydd y radd a ddyfarnwyd yn sefyll fel cymhwyster ffurfiol.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.Gŵyr@swansea.gov.uk http://www.ygGŵyr.swansea.sch.uk

BLWYDDYN 13

Yr Ysgol fydd yn penderfynu ar radd Safon Uwch y disgybl. **Nid ydym yn siŵr eto beth fydd y sefyllfa o ran pynciau galwedigaethol.** Ar gyfer pynciau Safon Uwch CBAC, ni fydd asesiadau nac arholiadau allanol. Bydd yr Ysgol yn penderfynu ar y graddau GBG (Graddau a bennir gan y ganolfan) yn seiliedig ar amrywiaeth o dystiolaeth a gwybodaeth asesu e.e.

- asesiadau sydd wedi'u cwblhau yn ystod y cwrs,
- gwaith cwrs.
- deunyddiau asesu wedi'u haddasu a fydd yn cael eu darparu gan CBAC
- ymrwymiad y disgybl i'r cwrs ac i ddysgu
- barn broffesiynol am berfformiad dros gyfnod o amser
- canlyniadau arholiadau blaenorol yn y pwnc neu unedau blaenorol
- perfformiadau ymarferol e.e. Addysg Gorfforol, Gwyddor Bwyd, Cerddoriaeth ayyb

Fe fydd y graddau'n cael eu pennu gan yr ysgol yn nhymor yr haf, er mwyn caniatáu i ni orffen addysgu ein cyrsiau a'n galluogi i gasglu rhagor o dystiolaeth.

Does dim hawl gan staff i drafod y graddau a bennir gan y ganolfan (GBG) gyda disgyblion na rieni yn ystod y broses hon yn ystod y misoedd nesaf.

Gair i Gall

Mae addysg yn broses barhaus sy'n datblygu'r unigolyn cyflawn, gyda'r nod o ddatblygu oedolion annibynnol sy'n cyfrannu'n bwrpasol i'r gymdeithas. Wrth ystyried y penderfyniad i ddileu arholiadau 2020, bydd canlyniadau eleni'n dweud mwy am ddisgyblion Blwyddyn 11 - 13 na'r hyn fyddai arholiad dwy awr fyth yn ei ddweud. **Mae'n hanfodol felly bod eich plentyn yn gweithio'n gyson dros y misoedd nesaf** i gyrraedd y safonau angenrheidiol a chynhyrchu tystiolaeth o gyrhaeddiad er mwyn cyrraedd ei botensial. Mae angen iddynt roi o'u gorau ym mhob gwers rithiol a nôl ar y safle, er eu lles a dyfodol eu hunain.

Mae'r Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd disgyblion yn dychwelyd i'r safle ar 1 Chwefror, ac wedi ein hysbysu y byddwn yn cael gwybod yn fuan os bydd newid yn y cynlluniau hyn. Byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn ag unrhyw newidiadau yn hyn o beth.

Yn gywir

Pennaeth

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.Gŵyr@swansea.gov.uk http://www.ygGŵyr.swansea.sch.uk

23 January 2021

Dear Parents / Carers,

Thanks

Thank you as parents for all your support since the beginning of the Term. Since the Government's late decision to delay the return of pupils to the School (until 1 February at the earliest), teachers at the school have been preparing 'live' lessons on Microsoft Teams, maintaining a 6-lesson structure per day, starting with registration in the morning at 0840. Pupils are expected to attend all lessons on time and to complete the work set. Your support in helping your children has been vital in supporting our teaching.

Over 90% of pupils across the School have engaged with lessons daily, and a team of staff contact the homes of pupils who are not in lessons, to offer support in ensuring that all pupils have access to their lessons. Regular correspondence has been received from parents expressing your appreciation of the provision, and positive suggestions on how to further adapt our teaching methods and the structure of the day.

Changes

We continue to constantly review our structures. It was decided at the same lunchtime for everyone (12:40 pm - 1:30 pm) from Monday onwards - split of lessons 4 mornings - 2 pm, and we may change some elements of our provision by refining regularly.

Summer 2021 Exams

Here is a summary for parents / carers and pupils of issues arising from the Education Minister's statement on Wednesday and its impact on different years at the School.

YEAR 10

It will no longer be possible to sit examinations in GCSE units in Year 10. More information on the 2022 assessment arrangements will follow in due course. These arrangements will take into account the unfavorable circumstances of 2021 and its impact on pupils sitting exams in 2022. This year's work will be VERY IMPORTANT in preparation for Year 11, so we must continue to make progress and engage 100% with work online and back in School when the opportunity arises.

YEAR 11

Pupils' GCSE grades will be awarded by the School, based on sound and objective evidence. No external assessments or examinations will be set by WJEC. **The situation regarding vocational**

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.Gŵyr@swansea.gov.uk http://www.ygGŵyr.swansea.sch.uk

subjects is not yet clear. The School will determine the CDG (Centre-determined Grades) based on a variety of evidence and assessment information e.g.

• assessments completed during the course
• coursework
• adapted assessment materials to be provided by WJEC
• the pupil's commitment to the course and to learning
• professional judgment about performance over time
• previous examination results in the subject or previous units
• practical exams in subjects such as Physical Education, Food Science, Music, etc.

The grades will be set by the School in the summer term, to allow us to finish teaching our courses and to allow us more time to gather more evidence.

YEAR 12

The School will decide the Advanced Subsidiary (AS) grade. **We are not yet sure what the situation will be in terms of vocational subjects.** There will be no external assessments or examinations. The School will determine the CDG (Centre-determined Grades) grades based on a range of evidence and assessment information e.g.

• assessments completed during the course,
• coursework.
• adapted assessment materials to be provided by WJEC
• the pupil's commitment to the course and to learning
• professional judgment about performance over time
• previous examination results in the subject or previous units
• practical performances e.g. Physical Education, Food Science, Music etc.

The grades will be submitted by the School in the summer term, to allow us time to finish teaching our courses and to enable us to gather more evidence of achievement.

The pupil's AS level will not contribute to the A level in 2022. However, the AS grade will be important in:

a) Allowing access to Universities and higher education through UCAS
b) Helping to inform teachers of the student's expected grade in 2022

If a pupil does not continue with the course in Year 13 the grade awarded will remain as a formal qualification.

YEAR 13

The School will decide the pupil's A level grade. **We're not sure yet what the situation will be in**

terms of vocational subjects. For WJEC A levels, there will be no external assessments or examinations. Teachers will determine the CDG (Centre-determined Grades) grades based on a variety of evidence and assessment information e.g.

- assessments completed during the course,
- coursework.
- adapted assessment materials to be provided by WJEC
- the pupil's commitment to the course and to learning
- professional judgment of performance over time
- previous examination results in the subject or previous units
- practical performances e.g. Physical Education, Food Science, Music etc.

The grades will be set by the School in the summer term, to allow us to finish teaching our courses and to enable us to gather more evidence of achievement.

Staff are not allowed to discuss centre-determined grades (CDG) with pupils or parents during this process in the coming months.

Sound Advice

In Ysgol Gyfun Gŵyr, education is seen as an ongoing process that develops young people holistically, with the aim of producing independent adults who contribute purposefully to society. In considering the decision to cancel the 2020 summer exams, this year's results will say more about Year 11 - 13 pupils than a two hour exam would say. It is therefore essential that your child works consistently over the coming months to reach the required standards and produce evidence of achievement and to reach his or her potential. They need to give of their best in every lesson, be they from afar or back on site, for their own benefit and future prospects.

The Welsh Government has announced that pupils will be returning to the site on 1 February, and have informed us that we will be told if there is a change in these plans. We will contact you about any changes in this regard.

Yours faithfully

Headteacher

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.Gŵyr@swansea.gov.uk http://www.ygGŵyr.swansea.sch.uk